# FFWNG GLASWELLTIR A'U PWYSIGRWYDD FEL DANGOSYDDION ECOSYSTEM

FARMING connect
cyswllt FFERMIO

**Mae pob un ohonom yn gyfarwydd â gweld yr amrywiaeth o ffyngau sy'n ymddangos yn ein coetiroedd yn yr hydref, ond os byddwn ni'n cymryd amser i edrych yn fanylach ar ein glaswelltiroedd yn yr hydref, efallai y byddai'n syndod gweld yr amrywiaeth o ffyngau sydd ar gael yma hefyd. Mae Cymru yn le da i weld ffyngau glaswelltir gan eu bod yn ffafrio porfeydd sy'n cael eu pori'n fyr gan ddefaid.**

Mae'r ffyngau glaswelltir yn cynnwys nifer o fathau o ffyngau gan gynnwys tagellau pinc, tafod y ddaear, ffyngau pastwn a ffyngau cwrel. Gellir hefyd gweld ffyngau cap cwyr sydd wedi cael eu henwi o ganlyniad i'w capiau cwyraidd o bob lliw, gan greu clytwaith o liw ar draws y glaswelltir.



*Llun 1. Ffwng cap cwyr*



*Llun 2. Ffwng pastwn bach mewn glaswelltir*

Yr hydref yw'r tymor gorau i'w gweld, ond mae eu tymor yn gymharol hir gyda rhai rhywogaethau'n ymddangos ym mis Awst ac eraill yn ymddangos yn hwyrach hyd at fis Tachwedd a mis Rhagfyr.

Mae ffyngau cap cwyr yn ffurfio partneriaethau gyda rhywogaethau planhigion eraill maent yn byw yn eu mysg. Maent yn cyfnewid maethynnau gyda gwreiddiau planhigion lletya sydd o fudd i'r naill a'r llall. Maen nhw angen priddoedd nad ydynt yn cynnwys llawer o faethynnau sydd heb gael eu tarfu gan aredig neu drin y tir. Mae nifer ohonynt yn fach felly maent angen glaswelltir byr, ac maent yn aml i'w gweld yn byw mewn porfeydd sy'n cynnwys llawer o fwsogl. Mae'r amodau hyn yn nodweddiadol iawn o lawer o borfeydd yr ucheldir yng Nghymru.



*Llun 3. Capiau cwyr coch*



*Llun 4. Cap cwyr gwyrdd bach*

**Mae ffyngau glaswelltir yn dweud llawer wrthym am gyflwr y borfa lle maent yn byw, ac mae eu presenoldeb mewn niferoedd mawr ac amrywiaeth o rywogaethau'n dangos y canlynol;**

- Glaswelltiroedd gyda lefelau uchel o fioamrywiaeth.
- Ecosystem iach a gweithredol.
- Glaswelltiroedd hynafol sydd heb gael eu gwella.
- Glaswelltiroedd gyda storfeydd carbon da gan nad ydynt wedi cael eu tarfu arnynt yn ddiweddar.

Mae'n hawdd chwilio am ffyngau cap cwyr a ffyngau glaswelltir eraill gan fod eu lliwiau llachar yn eu gwneud yn hawdd i'w gweld. Mae'n anoddach gweld ffyngau tafod y ddaear neu ffyngau pastwn gan eu bod yn llai, ond gallwch fod yn lwcus os yw'r glaswellt wedi'i dorri'n fyr. Ceir apiau ffonau symudol i helpu i gofnodi'r ffyngau a welir gan gynnwys yr ap Survey123 sy'n cael ei ddefnyddio gan yr elusen Plantlife i gofnodi glaswelltiroedd gyda ffyngau capiau cwyr. Mae llawer o liwiau'n golygu eich bod yn gweld ystod o rywogaethau, ac nid oes angen i chi nodi rhywogaeth y ffyngau. Mae gwybod bod gennych lawer o liwiau ar draws eich cae yn ddangosydd da iawn bod amrywiaeth dda o rywogaethau'n bresennol.



*Llun 5. Capiau cwyr gwyn mewn glaswellt hirach*



*Llun 6. Ffwng tafod y ddaear*

**Mae'n bwysig cynnal y glaswelltiroedd cap cwyr ar gyfer y dyfodol. Gellir gwneud hyn drwy;**

- Bori'r porfeydd yn dda.
- Peidio â defnyddio gwrteithiau neu blaladdwyr.
- Peidio ag aredig neu drin y tir.
- Osgoi gweithgareddau sy'n achosi cywasgiad megis bwydo stoc gyda chafnau bwydo cylch yn yr un man.

Mae hefyd yn bwysig ein bod ni'n gwybod ble mae glaswelltiroedd capiau cwyr fel nad ydym yn newid defnydd y glaswelltiroedd hyn yn ddamweiniol i rywbeth arall. Er enghraifft, os ydych chi'n ystyried ble y gallwch blannu coed ar eich tir, mae'n bwysig eich bod chi'n deall yr ystod lawn o gynefinoedd sydd ar eich fferm fel nad yw cynefinoedd gwerthfawr yn cael eu dinistrio.

Mae ffyngau glaswelltir, gan gynnwys y capiau cwyr, yn un o ddangosyddion prydferth glaswelltir iach, bioamrywiol sy'n debygol o fod yn gartref i nifer o blanhigion gwyllt. Mae'r glaswelltiroedd hyn yn bodoli o ganlyniad i arferion pori traddodiadol ac mae angen eu cadw. Os byddwch chi'n gweld ffyngau capiau cwyr ar eich fferm, cofnodwch hynny gan ddefnyddio iRecord neu ap Survey123 gan y bydd hynny'n helpu i greu darlun o bwysigrwydd Cymru a'i harferion ffermio er mwyn cynnal y glaswelltiroedd gwerthfawr hyn.

Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**